**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 26AIN TACHWEDD 2019 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd C. Brockley (Cadeirydd)
Cynghorwyr Mrs Glenys Baker, B. Barton, N. Bastow (Y Maer), Mrs M. Jones (Dirprwy Faer), C. Matthews, J. Pearson (Warden Coed), M. Tasker, M. Worth.

**SWYDDOGION:** Mrs Tina Earley Clerc y Dref
Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Nifer o Aelodau o'r Cyhoedd

**264/19 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd D. Bradley.

**265/19 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganodd y Cynghorydd C. Matthews ei gysylltiad â chais cynllunio O/46821 fel aelod o Fwrdd Cartrefi Cymru.

**266/19 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 29ain Hydref 2019 yn adroddiad cywir.***

**267/19 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol:**

**a) Cofnod 238/19 – Offer Casglu Sbwriel:**

Croesawyd Mr Gwil Roche, Cadw Cymru'n Daclus a'r Cynghorydd Chris Hughes a Mr Bill MacMillan o Ffederasiwn Cadwraeth ag Amgylchedd Bae Colwyn i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Dywedodd Mr Roche wrth y Pwyllgor y bu Cadw Cymru'n Daclus yn cydweithio gyda Phil Vipond, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, i sefydlu mannau canolog ar draws y Sir lle gellir cadw offer casglu sbwriel i alluogi grwpiau cymunedol cael mynediad atynt. Ar hyn o bryd, mae un ym Metws-y-coed ac un ym Mae Cinmel ac maent yn edrych i'r posibiliadau o sefydlu un yn ardal Bae Colwyn / Llandrillo yn Rhos. Eglurodd Gwil bydd rhyw faint o waith gweinyddol i lofnodi bod yr offer wedi mynd allan / wedi dychwelyd. Dywedodd Gwil byddai'n dull hwylus i grwpiau cyd-drefnu a'i gilydd er mwyn osgoi ail-wneud.

Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau bod ystafell fechan ar gael yn yr adeilad y tu cefn i orsaf yr heddlu. Gellir cael ato yn hawdd gyda modur **i gasglu**'r offer. Yn dibynnu ar faint y gwaith, byddai staff Neuadd y Dref yn gallu bod yn gyfrifol am y gwaith gweinyddol. Fe all hwn fod yn

lleoliad hwylus i holl grwpiau lleol ac fe ellir rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol trwy wefan y Cyngor Tref, tudalennau'r cyfryngau cymdeithasol a thudalen Facebook Colwyn yn ei Blodau. Gofynnwyd i Gadw Cymru'n Daclus am gopi o'r canllawiau / rhestr wirio. Cadarnhaodd Gwil bod 20 o offer casglu ar gael yn y lle cyntaf ond fe ellir archebu mwy. Cefnogwyd y defnydd o Neuadd y Dref fel lleoliad addas gan y Cynghorydd Glenys Baker (yn cynrychioli casglwyr Rhos) a Ffederasiwn Cadwraeth ac Amgylcheddol Bae Colwyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am fod yn bresennol ac am eu cyfranogiad.

***Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Tref yn gwneud ystafell i fod ar gael fel man canolog ac i roi awdurdod dirprwyol i'r Clerc / Cadeirydd i symud ymlaen unwaith y derbynnir / ystyrir y canllawiau / telerau ac amodau.***

Yna gadawodd y cynrychiolwyr y cyfarfod.

**b) Cofnod 233/19 – Gerddi'r Frenhines:**

Cyflwynodd y Clerc yr ymatebion oddi wrth Lianne Martin a Matthew Frankcom, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

***Penderfynwyd ysgrifennu at Gynghorwyr Sir Colwyn ac aelodau'r Pwyllgor Craffu i geisio eu cefnogaeth i gynnwys Gerddi'r Frenhines yn yr adroddiad drafft sydd i gael ei ystyried yng nghyfarfod mis Chwefror.***

**c) Cofnod 234/19 - Deall Lleoedd Cymru:**

Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y Clerc am fynychu'r digwyddiad i lansio yn adeilad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yng Nghoed Pella yn Rhagfyr ac mi fydd yn adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Clerc adael i'r trefnwyr wybod nad yw'r wefan yn addas ar gyfer ffonau symudol.

**ch) Cofnod 236/19 – Gweithgor Sul y Cofio:**

Dywedodd y Clerc bod y bobl allweddol o Sul y Cofio wedi cyfarfod yn gynharach. Bu'n cyfarfod buddiol iawn a chafwyd adborth da o'r Gwasanaethau Cofio (Bae Colwyn a Hen Golwyn). Y farn gyffredin oedd bod yr arddull newydd wedi llwyddo ac mai dyma fyddai'r arddull at y dyfodol. Gofynnodd y Cynghorydd M. Worth i Louise cael ei llongyfarch am ei gwaith o ymdrin â rheoli traffig a'i bod wedi gweithio'n arbennig o dda dan bwysau.

Trafodwyd Diwrnod VE ac awgrymodd y Gweithgor y dylid cyfuno'r dathliadau gyda threfnwyr Gŵyl y 40au. Roedd Gweinidog Eglwys St Paul's am drefnu gwasanaeth eglwysig arbennig ac awgrymwyd y gellid gweini lluniaeth yng ngerddi'r Eglwys, ond buasai'n rhaid trefnu cyllid at hyn. Awgrymodd cynrychiolwyr y Lleng Prydeinig trefnu gwasanaeth

bychan ger y Gofeb Rhyfel ac efallai dychwelyd i Glwb y Lleng Prydeinig i gynnig 'Llwncdestun i'r Genedl'.

**d) Cofnod 244/19 – Hysbysfyrddau:**

Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau am eu hadroddiadau am gyflwr yr hysbysfyrddau yn eu wardiau yn dilyn yr archwiliadau chwarterol. Dywedodd y Cynghorwyr o Rhos bod coesau'r hysbysfwrdd yn Rhodfa Colwyn wedi pydru.

***Penderfynwyd bod y Clerc Cynorthwyol i ddiweddaru'r rhestr gwirio ar gyfer yr archwiliadau chwarterol ac i gysylltu â'r dyn sy'n gwneud y gwaith cynnal a chadw i ofyn am amcan bris i drwsio'r hysbysfwrdd.***

**268/19 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol a dderbyniwyd oddi wrth GBSC er gwybodaeth / i gael ei ystyried;

**a) Rhybudd o Geisiadau am Reoliadau Traffig Dros Dro yn:**

(i) Ffordd Craig, Hen Golwyn – 9/12. – 11/12/2019
(ii) Ffordd Greenfield hyd at Lwybr Cyswllt y Promenâd - 7/1/2019 - 21/2/2020.
(iii) Nant Eirias - 8/2 – 9/2/2020

***Penderfynwyd nodi'r rheoliadau traffig dros dro***.

**b) Cabanau Aros Bysiau:**

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod wedi gwneud trefniadau dros dro, i gyfarfod gyda Gethin George, CBSC wythnos nesaf ac roedd yn obeithiol y gallai diweddaru'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf.

**c) Rheoli Gwarchodfeydd Natur yn y Dyfodol:**

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth ERF ynglŷn â rheoli gwarchodfeydd natur yn y dyfodol, yn cynnwys Coedwig Pwllycrochan. Fe nodwyd hefyd bod y gwaith a fwriadwyd yn groes i ofynion bioamrywiaeth Polisi Cynllunio Cymru (PSW) 10.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc Cynorthwyol cysylltu â'n cynrychiolwyr ar Bwyllgor Coedwig Pwllycrochan i'w cynghori hwy i ofyn beth yw ystyr elfennau 'dianghenraid' yn y cyfarfod nesaf ac iddynt adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.***

**ch) Llwybrau Teithio Gweithredol – Llandrillo yn Rhos:**

Cyflwynodd y Clerc cadarnhad am gyllid a chynlluniau amlinellol, ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

**d) Byw yn y Bae:**

(i) Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod adroddiad o Gyfarfod Swyddogion y Strategaeth a gynhaliwyd ar 18fed Tachwedd ynghlwm i gofnodion drafft cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Polisi a Chyllid a anfonwyd at bob Aelod.
(ii) Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Isadeiledd Gwyrdd ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

**dd) Prosiect Dychmygu:**

(i) Cyflwynodd y Clerc cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 29ain Hydref ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.
(ii) Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc bod DYCHMYGU wedi cysylltu â phob ysgol leol i'w gwahodd i gymryd rhan ar Ddydd Gŵyl Dewi ac roedd arlunwyr yn gweithio gyda'r ysgolion. Fe nodwyd bydd Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn digwydd ar ddydd Gwener 28ain Chwefror.

**e) Cynlluniau Cynefin:**

Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth Shane Wetton ac fe'i nodwyd gan yr Aelodau.

**f) Parciau Cymunedol i Gŵn:**

Cyflwynodd y Clerc llythyr yn cadarnhau nad oedd hyn am fynd ymlaen ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

**ff) Strategaeth Cartrefi Gwag:**

Cyflwynodd y Clerc y ddogfen ynmgynghori a dywedodd wrth y Pwyllgor fe ganiatawyd estyniad hyd at 27/11/2019.

Holodd yr Aelodau pam bod benthyciadau yn cael eu caniatáu i eiddo a fu'n wag ers 2 flynedd a gofynnwyd a fyddai hyn yn annog cadw'r eiddo'n wag. Pam na ellir galluogi benthyciadau yn gynharach? Mae angen egluro'r tabl ar dudalen 11 (9.5) i esbonio'r ystadegau a sut cawsant eu cyfrifo.

***Penderfynwyd bod y Clerc i ymateb yn unol â'r sylwadau / cwestiynau uchod.***

**269/19 <u>Llywodraeth Cymru:</u>**

a) Cyflwynodd y Clerc ymateb y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad ar NDF (cyflwynwyd ar 14eg Tachwedd) ac fe'i nodwyd gan yr Aelodau.
b) Cyflwynodd y Clerc ymateb y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad ar Gyflwyno Cartrefi Trwy'r System Cynllunio ac fe'i nodwyd gan yr Aelodau.
c) Cyflwynodd y Clerc copi o lythyr a anfonwyd at Benaethiaid Cynllunio parthed gwelliannau bioamrywiaeth ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

**279/19 <u>Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLlGChC):</u>**

Rhoddodd y Cynghorydd B. Barton adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod y bu ynddo ar 25/10/2019. Fe nodwyd bod angen datrys y gwaith gweinyddol yn

dilyn ymddiswyddiad Cyngor Tref y Trallwng o fod yn aelod. Dywedodd y Cynghorydd Barton i'r cyflwyniad gan Gyngor Sir Ddinbych ar faterion yn ymwneud a digartrefedd wedi bod yn addysgiadol iawn a bod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Barton am ei adroddiad.

***Penderfynwyd argymell bod y Clerc yn ysgrifennu at GBSC i ofyn i'r Swyddog sy'n gyfrifol am y rhai digartref yn ardal Bae Colwyn i ddod i annerch cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol ac i roi manylion am yr hyn a wneir gan GBSC i ymdrin â digartrefedd.***

**271/19 <u>Elusennau Hynafol Llandrillo</u>**

Rhoddodd y Cynghorydd C. Brockley adroddiad byr ar lafar am gefnid y tair elusen hynafol ac eglurodd yr angen i gynhyrchu taflen i hybu'r elusen ac i annog mwy o gyllid. Cefnogwyd y syniad o daflen yn llawn gan yr Aelodau.

**272/19 <u>Cymru yn ei Blodau:</u>**

Fe nodwyd gan yr Aelodau bod Bae Colwyn wedi cael ei enwebu ar gyfer cael mynediad i Rowndiau Terfynol Prydain yn ei Blodau

***Penderfynwyd cefnogi'r enwebiad.***

**273/19 <u>Digwyddiad Elusennol ym Mharc Min y Don:</u>**

Cyflwynodd y Clerc cais am gefnogaeth mewn egwyddor i ŵyl gerdd un diwrnod ym Mharc Min y Don yn haf 2020. Roedd yr Aelodau yn hollol gefnogol o'r ŵyl.

***Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn cefnogi'r Ŵyl mewn egwyddor.***

**274/19 <u>Gohebiaeth Arall:</u>**

Fe nodwyd bod yr eitem ganlynol ar gael gan y Clerc ar gais.
Cofnodion cyfarfod Grŵp Mynediad Conwy a gynhaliwyd ar 13/11/2019

**275/19 <u>Cynllunio</u>:**

**a** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn. Rhoddwyd awdurdod dirprwyol i'r Clerc cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio am goed wedi iddi dderbyn adroddiad y Warden Coed.***

**b** ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy yn y cyfnod 21/10/19 hyd at 17/11/19.***

**c** Tystysgrif Cyfreithlondeb:

Cyflwynodd y Clerc e-bost oedd yn egluro beth yw Tystysgrif Cyfreithlondeb ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

**276/19** **Trwyddedau:** Derbyniodd yr Aelodau'r rhestr o geisiadau am drwyddedau ac fe'u nodwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm …… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 26TH NOVEMBER 2019, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** Cllr C Brockley, Chairman
Cllrs: G Baker; B Barton; N Bastow (Mayor); Mrs M Jones (Deputy Mayor);
C Matthews; J Pearson; M Tasker; M Worth

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk
Mrs R Dudley, Assistant Clerk

**IN ATTENDANCE**: Several Members of the Public

**193/19 Welcome and Apologies for Absence:**

The Chairman welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllr D Bradley.

**194/19 Declarations of Interest**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. Cllr C Matthews declared an interest with regard to planning application 0/46821, as a board member of Cartrefi Conwy.

**195/19 Minutes**:

***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 29th October 2019.***

**196/19 Matters Arising from the Minutes:**

**a) Min 238/19 – Litter Picking Equipment:**

The Chair welcomed Mr Gwyl Roche, Keep Wales Tidy and Cllr Chris Hughes and Mr Bill Mcmillan from the Colwyn Bay Conservation and Environment Federation to the meeting.

Mr Roche informed the Committee that Keep Wales Tidy had been working with Phil Vipond, Conwy CBC to set up an even spread of hubs across the county to store litter picking equipment for community groups to have access to. There is currently one in Betws-y-Coed and one in Kinmel Bay and they are looking for a potential location in the Colwyn Bay/Rhos on Sea area. Gwyl explained that there would be an element of administration involved as the equipment would need to be signed in/out. Gwyl said it would also provide a useful way for groups to co-ordinate with each other so repetition could be avoided.

The Town Clerk advised members that there is a small room available in the annexe at the rear of the police station, which could be easily accessed by car to collect the equipment. Depending on the work involved, Town Hall staff could be responsible for the administration. This would be a convenient location for all local groups and local events could be shared via the Town Council website, social media pages and Colwyn in Bloom's Facebook page. A copy of the guidance/checklist was requested from Keep Wales Tidy. Gwyl confirmed that 20 pickers would be available initially but more can be ordered. Cllr Glenys Baker (representing Rhos pickers) and Colwyn Bay Conservation and Environment Federation supported the Town Hall being a suitable location.

The Chair thanked the representatives for attending the meeting and for their input.

***Resolved to recommend that the Town Council makes the storage room available as a 'hub' and to delegate to Clerk/Chair to progress, once the guidance/terms and conditions have been received/considered.***

The representatives then retired from the meeting.

**b) Min 233/19 – Queen's Gardens:**

The Clerk submitted responses from Lianne Martin and Matthew Frankcom, Conwy CBC.

***Resolved to write to Colwyn County Councillors and the members on the Scrutiny Committee to seek their support in including the Queen's Garden request into the draft report, which is due to be considered at the February meeting.***

**c) Min 234/19 – Understanding Welsh Places:**

Members noted that the Clerk would be attending a launch event at Conwy CBC, Coed Pella Building in December and would report back to a future meeting. The Clerk was asked to inform the organisers that the website isn't suitable for mobile phones.

**d) Min 236/19 – Remembrance Sunday Working Group:**

The Clerk reported that the key people from Remembrance Sunday had met earlier and had had a very positive meeting and good feedback from both Remembrance Services (Colwyn Bay and Old Colwyn). The consensus was that the new format had been successful and would be the format for future years. Cllr M Worth requested that congratulations be passed onto Louise who had been dealing with traffic control and had worked excellently under pressure.

VE day had been discussed and the working group suggested that the celebrations be combined with the 40's Festival with a possible date change

to 15/08/2020. This would need to be agreed with the 40's Festival organisers. The Minister of St Pauls was arranging a special church service and suggested refreshments could be served in the church grounds but this would require funding. The British Legion representatives suggested organising a small service at the War Memorial and possibly going back to the Legion Club afterwards for the 'Toast of the Nation'.

**e) Min 244/19 – Noticeboards:**

The Clerk requested members reports on the condition of the noticeboards in their wards following the quarterly inspections. Rhos councillors reported that the noticeboard on Colwyn Avenue had rotten legs.

***Resolved that the Assistant Clerk updates the quarterly inspection checklist and contact the maintenance man to request a quotation to repair the noticeboard.***

**197/19 <u>Conwy CBC</u>:**

The Clerk submitted, for information/consideration, the following correspondence from CCBC:

**a) Notice of Requests for a Temporary Traffic Regulation:**
**(i)** Craig Road, Old Colwyn (9/12 – 11/12)
**(ii)** Greenfield Road to Promenade Link Path– 07/01 – 21/2/2020)
**(iii)** The Dingle– 08/02 -09/02/2020

***Resolved to note the temporary traffic regulations.***

**b) Bus Shelters:**

The Clerk informed the members that she had provisionally arranged to meet with Gethin George, Conwy CBC next week and will hopefully update the members at the next meeting.

**c) Future Management of Nature Reserves**:

The Clerk submitted an email from ERF regarding the future management of nature reserves which would include Pwllycrochan Woods. It was also noted that this action appeared to be in conflict with biodiversity requirements set out in Planning Policy Wales (PPW) 10.

***Resolved to ask the Assistant Clerk was asked to contact our representatives on the Pwllycrochan Woods Committee to brief them to ask what 'non-essential' elements meant at the next meeting and to report back to a future meeting.***

**d) Active Travel Route – Rhos on Sea:**

The Clerk submitted confirmation of funding and outline plans which were noted by members.

**e) Bay Life:**

(i)The Clerk informed the members that a report of the Strategic Officer's Meeting, held on 18th November was included in the draft minutes of the last Policy and Finance Committee meeting, which had been sent to all members.
(ii) The Clerk submitted information about WG funding for Green Infrastructure which was noted by members.

**f) Imagine Project**:

**(i)** The Clerk submitted the minutes of the last meeting held on 29th October which were noted by members.
**(ii)** The Clerk informed the Committee that IMAGINE had contacted all local schools to invite them to participate on St David's Day and artists were working with the schools. It was noted that the St David's Day parade will take place on Friday 28th February.

**g) Place Plans:**

The Clerk submitted a letter from Shane Wetton which was noted by members.

**h) Community Dog Parks:**

The Clerk submitted a letter confirming that these will not be progressed, which was noted by members.

**i) Empty Homes Strategy:**

The Clerk submitted the consultation document and informed the Committee that an extension had been granted to 27/11/2019.

Members questioned why loans were only granted a property had been empty for 2 years and queried if this encourages the property to be left empty. Could loans be made available sooner? The table on page 11 (9.5) needed clarifying, to explain the statistics and how they have been calculated.

***Resolved that the Clerk respond with the comments/queries detailed above.***

***198/19*** **<u>Welsh Government</u>:**

a) The Clerk submitted the Town Council's response to the NDF consultation (submitted on 14th November) which was noted by members.

b) The Clerk submitted the Town Council's response to the Delivery of Housing through the Planning System consultation which was noted by members.
c) The Clerk submitted a copy of a letter sent to Heads of Planning regarding biodiversity enhancements which was noted by members.

**199/19 <u>N&MWALC</u>:**

Cllr B Barton gave a brief verbal report on the meeting he had attended on 25/10/19.
It was noted that, the Administration needed to be sorted out, following the resignation of Welshpool Town Council from membership. Cllr B Barton said that the presentation on homeless issues by Denbighshire County Council had been very informative and that Denbighshire CC were working closely with the Police and Conwy CBC. The Chair thanked Cllr Barton for his report.

***Resolved to recommend that the Clerk contact Conwy CBC to request if the Officer responsible for homelessness in the Bay of Colwyn area could attend a future Council meeting to give a presentation on the action being taken by Conwy CBC to tackle homelessness.***

**200/19 <u>Llandrillo Ancient Charities</u>**:

Cllr C Brockley gave a brief verbal report on the background to the three ancient charities and explained the necessity to produce a leaflet to promote the charity and encourage more funding. The members fully supported the leaflet.

**201/19 <u>Wales in Bloom:</u>**

It was noted by members that Colwyn Bay had been nominated to enter the Britain in Bloom Finals.

***Resolved to support the nomination.***

**202/19 <u>Charity Event in Min y Don Park</u>**:

The Clerk submitted a request for support in principle for a one day music festival in Min y Don Park in summer 2020. The members fully supported the festival.

***Resolved to recommend that the Council supports the festival in principle.***

**203/19 <u>Other Correspondence:</u>**

It was noted that the following item is available on request from the Clerk: Conwy Access Group Minutes from the meeting held on 13/11/2019.

**204/19 <u>Planning:</u>**

**a)** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.
***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached. It was delegated that the Clerk would submit the tree planning applications observations after receiving the report from the Tree Warden.***

**b)** ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 21/10/19 to 17/11/19***.

**c)** Certificate of Lawfulness:
The Clerk submitted an email which explained Certificate of Lawfulness which was noted by members.

**205/19 <u>Licensing</u>:**

Members received and noted the list of licensing applications.

The meeting closed at 8p.m. ……. Chairman